Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 08.09.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## AMAETH: Ffliw adar wedi cael ei gadarnhau yn ardal Arthog

Mae Safonau Masnach Cyngor Gwynedd (Iechyd Anifeiliaid) wedi derbyn hysbysiad gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) ar y 5 Medi 2022 am bresenoldeb ffliw adar pathogenaidd iawn (HPAI) H5N1 ar safle adar caeth yn Arthog, Gwynedd. Mae Ardal Amddiffyn 3km a Pharth Gwyliadwriaeth 10 cilomedr wedi'u datgan o amgylch yr adeiladau heintiedig. Mae manylion y mesurau Ardal Amddiffyn a Pharth Gwyliadwriaeth hyn i'w gweld ar:

https://llyw.cymru/datganiad-o-barth-gwarchod-parth-gwyliadwriaeth-ffliw-adar-ger-arthog-gwynedd-cymru

# DIGWYDDIAD: Cyfarfod Cymorth Arloesi 21 Medi 2022

Cynhelir Cyfarfod Cymorth Cyllid Arloesi ar-lein i helpu cwmnïau detholedig yng Nghymru i baratoi eu hunain yn well ar gyfer cynnal Prosiectau Ymchwil a Datblygu mwy effeithiol ar 21 Medi 2022 (10::00am-4:45pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3BdytDZ

# DIGWYDDIAD: Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol – Mesurau Ionawr 2023

Daw ail gam y rheoliadau i rym ar 1 Ionawr 2023. Bydd rhai busnesau fferm yn gweld ychydig iawn o effaith neu ddim effaith o gwbl, a bydd busnesau eraill angen amser a chefnogaeth er mwyn gallu cydymffurfio. Ymunwch â Cyswllt Ffermio yn un o'u digwyddiadau mewn person i ddysgu mwy, ewch i:

https://bit.ly/3RO5trQ

Mae canllawiau y rheoliadau ar gael ar:

https://llyw.cymru/rheoliadau-adnoddau-dwr-rheoli-llygredd-amaethyddol-cymru-2021-canllawiau-ar-gyfer-ffermwyr

# DIGWYDDIAD: FSB – 'BIG networking for small businesses' 16 Medi 2022

Bydd digwyddiad yr FSB, 'BIG networking for small businesses', ar 16 Medi 2022 (10:00am-11:30am), yn gyfle i rwydweithio â channoedd o berchnogion busnesau bach o bob rhan o'r DU. Mae mwy o wybodaeth am y digwyddiad am ddim yma ar gael ar:

https://bit.ly/3DbwNMO

## RHEOLIADAU: Beth yw'r rheolau newydd ar gyfrifo tâl gwyliau i weithwyr tymhorol?

Mae dyfarniad llys diweddar wedi herio'r ffordd y cyfrifir tâl gwyliau gweithwyr tymhorol a rhan o'r flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae'n ei olygu i berchnogion busnesau bach ar gael ar:

https://bit.ly/3BnyWna

## NEWYDDION: Gweinidog yr Economi yn ymweld â Cei Llechi ar ei newydd wedd

Yn ddiweddar, cafodd Gweinidog yr Economi, Vaughan Gething, gyfle i weld Cei Llechi yng Nghaernarfon ar ei newydd wedd, yn dilyn prosiect adfywio gwerth £5.9 miliwn. Mae mwy am hyn ar:

https://llyw.cymru/gweinidog-yr-economi-yn-ymweld-cei-llechi-ar-ei-newydd-wedd

## CYFLE: Ymuno â Bwrdd Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn chwilio am aelod Anweithredol newydd o'r Bwrdd a fydd yn cynrychioli'r sector Cerddoriaeth am gyfnod o dair blynedd – cyfle i fod yn rhan o'r gwaith o bennu cyfeiriad ar gyfer cefnogi a thyfu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru i'r dyfodol. I gael rhagor o wybodaeth ac i gael gafael ar y pecyn ymgeisio, ewch i:

https://www.cymrugreadigol.cymru/cy/amdanom-ni/tim-cymru-greadigol

## YMCHWIL: Adroddiadau galw'r farchnad ym maes twristiaeth: Mehefin 2022

Yn ddiweddar, mae Croeso Cymru wedi cyhoeddi canfyddiadau diweddaraf ymchwil defnyddwyr y farchnad a brand i ymwelwyr posibl â Chymru sy'n cwmpasu marchnadoedd y DU ac

Iwerddon, yn dilyn arolwg a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022. Mae'r canfyddiadau ar gael ar:

https://llyw.cymru/adroddiad-galwr-farchnad-ym-maes-twristiaeth-mehefin-2022

## DIGWYDDIAD: Cymru Greadigol – Dweud eich dweud! 14 Medi 2022

Mae Cymru Greadigol yn cynnal fforwm agored i randdeiliaid yn Rhanbarth y Gogledd fin nos 14 Medi 2022 yn Galeri, Caernarfon. Bydd cyfle i gwrdd ag aelodau Bwrdd Anweithredol Cymru Greadigol ac i drafod amrywiol faterion a chyfleoedd. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â: post@m-sparc.com

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru